OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2006 No. 180

# Rheoliadau Clwy'r Traed a'r Genau (Rheoli Brechu) (Cymru) 2006

## RHAN 2

Y rhaglen frechu

### Gwahardd brechu ac eithrio o dan drwydded

**8.**—(1) Ni chaniateir i unrhyw berson frechu anifail ac eithrio o dan awdurdod trwydded a roddwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol sy'n caniatáu brechu ataliol neu amddiffynnol.

(2) Nid yw'r gwaharddiad yn y rheoliad hwn yn gymwys i—

(a) unrhyw beth a wneir o dan awdurdod trwydded a roddwyd o dan erthygl 4 o Orchymyn Pathogenau Anifeiliaid Penodol 1998(**1**); neu

(b) y gwaith o roddi brechlyn yn unol â thystysgrif profion ar anifeiliaid a roddwyd o dan reoliad 8 o Reoliadau Meddyginiaethau Milfeddygol 2005(**2**).

### Ffactorau sy'n cyfrannu at benderfyniad i ganiatáu brechu ataliol neu amddiffynnol

**9.**—(1) Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol ystyried y ffactorau canlynol wrth benderfynu a fydd yn caniatáu brechu ataliol neu amddiffynnol—

(a) y risg y bydd y clwy'n brigo—

(i) yn y Deyrnas Unedig ac yn mynd ar led i unrhyw ran o'r wlad,

(ii) yn ymledu i Gymru gydag anifeiliaid sy'n dueddol i gael y clwy, carcasau neu bethau eraill sy'n debyg o ledu'r clwy drwy eu mewnforio, neu

(iii) yn ymledu o Gymru gydag anifeiliaid sy'n dueddol i gael y clwy, carcasau neu bethau eraill sy'n debyg o ledu'r clwy drwy eu hallforio, neu

(iv) yn ymledu i Gymru neu ohoni oherwydd cyflwr y tywydd ar y pryd;

(b) unrhyw fygythiad oddi wrth y clwy i anifeiliaid—

(i) mewn labordy, sŵ, parc bywyd gwyllt neu fangre arall lle cedwir anifeiliaid sy'n dueddol i gael y clwy yn bennaf at ddibenion eu harddangos ac addysgu'r cyhoedd, neu ardal gaeëdig a ddefnyddir yn bennaf ar gyfer saethu;

(ii) mangre nad yw'n dod o fewn (i) o gorff, sefydliad neu ganolfan—

(aa) sy'n cadw anifeiliaid sy'n dueddol i gael y clwy yn unig at ddibenion cadwraeth, arddangos ac addysgu'r cyhoedd, neu ymchwil gwyddonol neu fridio'r anifeiliaid hynny ar gyfer ymchwil, a

(**1**) O.S. 1998/463.
(**2**) O.S. 2005/2745.

(bb) a gymeradwywyd ynglŷn â'r anifeiliaid hynny o dan reoliad 9 o Reoliadau Anifeiliaid a Cynhyrchion Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) (Cymru) 2005;

(iii) mewn mangre arall lle cedwir anifeiliaid sy'n dueddol o gael y clwy at ddibenion gwyddonol neu at ddibenion sy'n ymwneud â chadwraeth neu rywogaeth neu adnoddau genetig anifeiliaid fferm;

(c) y meini prawf yn Atodiad X i Gyfarwyddeb y Cyngor 2003/85/EC ar fesurau'r Gymuned i reoli clwy'r traed a'r genau sy'n diddymu Cyfarwyddeb 85/511/EEC a Phenderfyniadau 89/531/EEC a 91/665/EEC ac sy'n diwygio Cyfarwyddeb 92/46/EEC(**3**);

(ch) dulliau eraill o atal y clwy rhag ymledu sydd ar gael iddo;

(d) yn achos brechu ataliol, a oes angen brechu o'r fath fel mater o frys, i atal y clwy rhag ymledu i fangre neu ardal ddaearyddol drwy leihau'r niferoedd o firysau'r clwy sy'n cylchredeg yno; a

(dd) yn achos brechu amddiffynnol—

(i) a fydd brechu o'r fath yn amddiffyn anifeiliaid sy'n dueddol i gael y clwy yn y parth brechu arfaethedig rhag ymlediad firysau'r clwy drwy'r awyr neu drwy fagwrfeydd, a

(ii) effaith y mesurau a fyddai'n cael eu cymhwyso yn y parth brechu amddiffynnol a'r parth gwyliadwriaeth brechu ar bersonau ac anifeiliaid sydd yno.

(2) Os bydd y Cynulliad Cenedlaethol, ar ôl ystyried y ffactorau hynny, yn credu mai caniatáu brechu ataliol neu amddiffynnol yw'r modd mwyaf priodol i atal y clwy rhag ymledu, rhaid iddo benderfynu ymgymryd â rhaglen frechu.

(3) Os bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn penderfynu ymgymryd â rhaglen frechu bydd yn rhoi un neu fwy o drwyddedau sy'n caniatáu brechu ataliol neu amddiffynnol.

**Ffurf y penderfyniad i ymgymryd â rhaglen frechu**

**10.**—(1) Rhaid datgan y penderfyniad i ymgymryd â rhaglen frechu yn ysgrifenedig.

(2) Rhaid i'r penderfyniad gynnwys yr wybodaeth ganlynol am y rhaglen frechu—

(a) ai rhaglen yw am frechu ataliol neu frechu amddiffynnol;

(b) y lle neu'r ardal ddaearyddol yr ymgymerir â hi;

(c) manylion yr anifeiliaid sydd i'w brechu (gan gynnwys eu rhywogaeth a'u hoed),

(ch) am ba hyd y bwriedir i'r rhaglen frechu barhau;

(d) hysbysiad o'r gwaharddiad ar symud anifeiliaid a chynhyrchion anifeiliaid yn rheoliad 12(2);

(dd) ffurf y tagiau clust sydd i'w gosod a'r cofnodion sydd i'w gwneud o dan reoliad 19.

(e) unrhyw wybodaeth arall (os oes gwybodaeth o'r fath) y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn ei hystyried yn angenrheidiol at ddibenion hysbysu'r rhai y gall y rhaglen frechu effeithio arnynt.

(3) Rhaid i unrhyw benderfyniad gan y Cynulliad Cenedlaethol sy'n golygu newid yn yr wybodaeth yn is-baragraff (2) hefyd gael ei datgan yn ysgrifenedig.

(4) Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol gymryd y camau hynny y mae o'r farn eu bod yn angenrheidiol i ddwyn unrhyw benderfyniad y mae'n ofynnol ei bod yn ysgrifenedig gan y rheoliad hwn i sylw'r rheini y gall effeithio arnynt.

(**3**) OJ Rhif L306, 22.11.2003,t.l.

### Trwyddedau sy'n caniatáu brechu ataliol neu frechu amddiffynnol

**11.**—(1) Ni chaiff unrhyw drwydded sy'n caniatáu brechu ataliol awdurdodi brechu y tu allan i'r parth gwarchod.

(2) Ni chaiff unrhyw drwydded sy'n caniatáu brechu amddiffynnol awdurdodi brechu mewn parth gwyliadwriaeth brechu.

(3) Ni cheir dehongli trwydded sy'n caniatáu brechu ataliol neu amddiffynnol fel bod iddi'r effaith o'i gwneud yn ofynnol bod unrhyw berson yn brechu unrhyw anifail.

### Hwyluso brechu

**12.**—(1) Rhaid i geidwad unrhyw anifail a bennir mewn penderfyniad i ymgymryd â rhaglen frechu, os gwneir hynny'n ofynnol gan arolygydd neu berson sy'n gweithredu o dan ei gyfarwyddyd—

(a) datgan (mewn ysgrifen os oes gofyn), rywogaethau, oed a niferoedd yr anifeiliaid y mae'n gyfrifol amdanynt; a

(b) cyflwyno unrhyw anifail o'r fath i'w frechu ar yr adeg honno ac yn y lle hwnnw a fo'n ofynnol.

(2) Ni chaiff unrhyw berson ganiatáu symud y canlynol o unrhyw fangre lle cedwir unrhyw anifail a bennir mewn penderfyniad i ymgymryd â rhaglen frechu cyn bod yr holl anifeiliaid hynny wedi cael eu brechu ac eithrio o dan awdurdod trwydded a roddir gan y Cynulliad Cenedlaethol—

(a) unrhyw anifail, neu

(b) unrhyw gynnyrch anifeiliaid a gynhyrchwyd yn y fangre o anifail sy'n dueddol i gael y clwy.

### Datgan parth brechu a datgan parth gwyliadwriaeth brechu

**13.**—(1) Os yw'n penderfynu ymgymryd â rhaglen frechu amddiffynnol, rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol ar yr un pryd ddatgan unrhyw ran o Gymru lle'r ymgymerir â'r rhaglen yn barth brechu a rhaid iddo hefyd ddatgan parth gwyliadwriaeth brechu cysylltiedig.

(2) Rhaid i ddatganiad o dan baragraff (1) ddynodi—

(a) rhychwant y parth brechu, a

(b) rhychwant y parth gwyliadwriaeth brechu cysylltiedig, y mae'n rhaid iddo ymestyn o leiaf deg cilomedr o'r parth brechu ac fel arall fod o'r cyfryw faint y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn barnu sy'n angenrheidiol er mwyn rhwystro'r clwy rhag ymledu.

(3) Os yw'n penderfynu amrywio'r lle neu'r ardal ddaearyddol lle y mae'r rhaglen frechu amddiffynnol i ddigwydd, rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol ddiwygio'r datganiad o dan baragraff (1) fel bod y parth brechu yn cynnwys y lle neu'r ardal ddaearyddol a amrywiwyd.

### Datgan parth gwyliadwriaeth brechu ar frechu amddiffynnol yn Lloegr

**14.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan yw rhaglen frechu amddiffynnol i ddigwydd yn Lloegr.

(2) Pan fydd y rheoliad hwn yn gymwys a bod unrhyw ran o'r rhaglen brechu amddiffynnol i ddigwydd o fewn deg cilomedr i ffin Cymru, rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol ddatgan parth gwyliadwriaeth brechu yng Nghymru.

(3) Pan fydd y rheoliad hwn yn gymwys a bod parth sy'n hafal ei effaith i barth gwyliadwriaeth brechu wedi cael ei ddatgan yn Lloegr sy'n ffinio â ffin Cymru, caiff y Cynulliad Cenedlaethol ddatgan parth gwyliadwriaeth brechu yng Nghymru.

(4) Yn ddarostyngedig i baragraff (5), rhaid i barth gwyliadwriaeth brechu a ddatgenir o dan y rheoliad hwn fod o'r cyfryw faint y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried ei fod angenrheidiol i rwystro ymlediad y clwy.

(5) Rhaid i ddatganiad o dan y rheoliad hwn bennu rhychwant y parth gwyliadwriaeth brechu, a rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol sicrhau bod unrhyw barth o'r fath—

(a) yn ffinio â'r ffin â Lloegr, a

(b) yn ymestyn o'r ffin honno fel bod ei derfyn o leiaf ddeg cilomedr oddi wrth perimedr unrhyw barth sydd ag effaith hafal i barth brechu yn Lloegr.

### Parthau brechu a pharthau gwyliadwriaeth brechu: darpariaethau cyffredinol

**15.**—(1) Os yw rhan o unrhyw fangre y tu mewn neu y tu allan i barth brechu, bernir bod y cyfan ohoni y tu mewn i'r parth hwnnw.

(2) Os yw unrhyw fangre yn rhannol y tu mewn ac yn rhannol y tu allan i barth gwyliadwriaeth brechu, bernir bod y cyfan ohoni y tu mewn i'r parth hwnnw (heblaw am fangre y mae rhan ohoni y tu mewn i barth brechu hefyd).

(3) Bydd ardal yn parhau'n barth brechu neu'n barth gwyliadwriaeth brechu (neu'n rhan o un) hyd nes y bydd y Cynulliad Cenedlaethol—

(a) yn diwygio'r datganiad a'i creodd fel yr eithrir yr ardal honno neu,

(b) yn dirymu'r datganiad hwnnw.

(4) Rhaid i unrhyw ddiwygiad i ddatganiad neu ddirymiad datganiad sy'n creu parth brechu neu barth gwyliadwriaeth brechu gyfeirio at y datganiad hwnnw a dweud y dyddiad a'r amser y mae i gymryd effaith.

### Cyfnodau amser a mesurau sy'n gymwys o ran parth brechu

**16.**—(1) Yn ddarostyngedig i reoliad 25(2), mae darpariaethau'r Atodlen yn gymwys o ran parth brechu heb ragfarnu unrhyw ofynion neu gyfyngiadau sy'n gymwys yn unrhyw ran ohono oherwydd fod y rhan hwnnw yn disgyn o fewn parth gwarchod neu barth gwyliadwriaeth.

(2) Ar ôl i 30 o ddiwrnodau fynd heibio ers brechu'r holl anifeiliaid mewn parth brechu a bennwyd ar gyfer eu brechu mewn penderfyniad i ymgymryd â rhaglen brechu amddiffynnol, caiff y Cynulliad Cenedlaethol ddatgan diwedd cyfnod 1 a dechrau cyfnod 2 a rhaid i ddatganiad o'r fath bennu'r dyddiad a'r amser y mae i fod yn effeithiol.

(3) Ar ôl cwblhau'r mesurau yn is-baragraffau (a) i (ch) yn rheoliad 25(2) ym mhob mangre adweithydd mewn parth brechu, rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol ddatgan diwedd cyfnod 2 a dechrau cyfnod 3 a rhaid i ddatganiad o'r fath bennu'r dyddiad a'r amser y mae i fod yn effeithiol.

(4) Er gwaethaf paragraff (3), caiff y Cynulliad Cenedlaethol, cyn cwblhau'r mesurau hynny ym mhob mangre adweithydd, gyflwyno hysbysiad i feddiannydd unrhyw fangre a ddosbarthwyd ei bod yn rhydd o'r clwy o dan reoliad 25(1)(b) yn datgan bod rhaid i'r fangre honno ddechrau ar gyfnod 3 a bod rhaid barnu bod cyfnod 3 wedi dechrau mewn cysylltiad â'r fangre honno pan gyflwynir yr hysbysiad hwnnw.

(5) Caiff y Cynulliad Cenedlaethol ddatgan bod cyfnod 3 wedi dod i ben os yw'n sicr bod y clwy wedi'i ddileu yng Nghymru.

### Mesurau sy'n gymwys i barth gwyliadwriaeth brechu

**17.**—(1) Ni chaniateir i unrhyw berson symud unrhyw anifail sy'n dueddol i gael y clwy o fewn neu allan o barth gwyliadwriaeth brechu ac eithrio—

(a) oddi mewn i'r fangre lle y'i cedwir, neu

(b) o dan awdurdod trwydded a roddwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol.

(2) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys heb ragfarnu unrhyw ofynion neu gyfyngiadau sy'n gymwys i unrhyw ran o barth gwyliadwriaeth brechu am fod y rhan hwnnw yn disgyn o fewn parth gwarchod neu barth gwyliadwriaeth.

**Estyn y pŵer i beri brechu**

**18.** Er gwaethaf adran 16(1) o'r Ddeddf, caiff y Cynulliad Cenedlaethol beri bod anifeiliaid nad ydynt yn dod o dan yr is-adran honno yn cael eu brechu os ydynt mewn parth brechu ac mae darpariaethau canlynol y Ddeddf i'w cymhwyso fel pe bai'r cyfryw frechu'n cael ei gyflawni wrth arfer y pŵer yn adran 16(1)—

(a) gweddill adran 16 (triniaeth ar ôl bod yn agored i haint),

(b) adran 16A (cigydda anifeiliaid sydd wedi'u brechu), a

(c) adran 62A (cigydda: pŵer mynediad).

**Dynodi anifeiliaid sydd wedi'u brechu**

**19.**—(1) Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol ddarparu i bob person y dyroddir trwydded iddo sy'n caniatáu brechu ataliol neu amddiffynnol ddigon o dagiau clust i'w gosod ar bob anifail a all gael ei frechu o dan y drwydded honno.

(2) Rhaid i bob tag clust ddwyn yr wybodaeth honno y mae'r Cynulliad Cenedlaethol o'r farn ei bod yn angenrheidiol i adnabod yr anifail y gosodwyd y tag arno fel anifail sydd wedi'i frechu.

(3) Rhaid i unrhyw berson sy'n brechu anifail—

(a) ei ddynodi ar unwaith ar ôl ei frechu drwy osod tag arno;

(b) gwneud cofnod brechu ysgrifenedig sy'n cynnwys yr wybodaeth ganlynol—

(i) y dyddiad,

(ii) y lle, a

(iii) disgrifiad o'r anifail;

(c) sicrhau bod y Cynulliad Cenedlaethol a cheidwad yr anifail yn derbyn copi o'r cofnod brechu hwnnw; ac

(ch) cadw'r cofnod hwnnw am gyfnod o chwe mlynedd.

(4) Rhaid i gofnodion fod yn y ffurf a gymeradwyir gan y Cynulliad Cenedlaethol.

(5) Rhaid i bob person a ddarperir â thagiau clust o dan y rheoliad hwn ddychwelyd tagiau clust nas defnyddiwyd i'r Cynulliad Cenedlaethol yn ddi-oed pan hawlir hwy.

**Marcio pasbortau gwartheg**

**20.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i unrhyw anifail a bennwyd ar gyfer ei frechu a ddyroddwyd â—

(a) pasbort gwartheg o dan Orchymyn Pasbortau Gwartheg 1996(**4**);

(b) pasbort gwartheg o dan Reoliadau Adnabod Gwartheg 1998(**5**);

(c) tystysgrif gofrestru o dan Reoliadau Gwartheg (Adnabod Anifeiliaid Hŷn) (Cymru) 2000(**6**).

(**4**) O.S. 1996/1686.
(**5**) O.S. 1998/871, y ceir diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**6**) O.S. 2000/2976, y ceir diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(2) Os bydd gan geidwad unrhyw anifail y mae'r paragraff hwn yn gymwys iddo ei basbort gwartheg neu dystysgrif gofrestru yn ei feddiant ar adeg y brechu rhaid iddo ei roi i'r person sy'n cyflawni'r brechu ar yr adeg honno.

(3) Rhaid i'r person sy'n cyflawni'r brechu sicrhau bod y pasbort gwartheg neu dystysgrif gofrestru a roddir iddo ar adeg y brechu yn cael ei farcio neu ei marcio ar yr adeg honno i ddangos bod yr anifail wedi'i frechu ac yna dychwelyd y cyfryw basbort neu dystysgrif i'r ceidwad.

(4) Os nad yw pasbort gwartheg neu dystysgrif gofrestru unrhyw anifail y mae'r paragraff hwn yn gymwys iddo ym meddiant ei geidwad ar adeg y brechu, rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol gyflwyno hysbysiad i'r ceidwad hwnnw yn ei gwneud yn ofynnol iddo yntau gyflwyno'r cyfryw basbort neu dystysgrif i'r Cynulliad Cenedlaethol i'w farcio i ddangos bod yr anifail wedi cael ei frechu.

(5) Rhaid i hysbysiad o dan baragraff (4) bennu'r trefniadau gweinyddol y mae'n rhaid eu dilyn wrth gyflwyno'r pasbort gwartheg neu'r dystysgrif gofrestru ar gyfer ei farcio neu ei marcio.

(6) Rhaid i unrhyw berson y cyflwynir hysbysiad o dan baragraff (4) iddo gymryd pob cam rhesymol i sicrhau y dychwelir y pasbort gwartheg neu'r dystysgrif gofrestru i'w feddiant yn ddi-oed a rhaid iddo gydymffurfio â gofynion yr hysbysiad yn ddi-oed pan ddychwelir y pasbort neu'r dystysgrif.

### Tynnu tagiau clust a thagiau a gollwyd

**21.**—(1) Ni chaiff unrhyw berson yn fwriadol dynnu tag clust a osodwyd o dan reoliad 19(3) oni thynnir ef er mwyn rhwystro poen a dioddefaint diangen.

(2) Os bydd ceidwad anifail wedi'i frechu yn tynnu ei dag clust yn unol â pharagraff (1) neu'n darganfod bod ei dag clust ar goll rhaid iddo hysbysu'r Cynulliad Cenedlaethol yn ysgrifenedig yn ddi-oed.

(3) Pan ddaw hysbysiad i law o dan y rheoliad hwn, rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol—

(a) trefnu bod tag clust newydd yn cael ei osod ar yr anifail sydd wedi'i frechu, neu

(b) pe byddai gosod tag clust yn peri poen a dioddefaint diangen, trefnu bod yr anifail yn cael ei ddynodi yn anifail sydd wedi'i frechu drwy osod marc parhaol annileadwy arno.

(4) Rhaid i unrhyw berson sy'n gwybod neu sy'n amau bod anifail wedi'i frechu ond nad yw'n cario tag clust hysbysu ceidwad yr anifail hwnnw a'r Cynulliad Cenedlaethol ar unwaith.

### Gwerthu a chigydda anifeiliaid sydd wedi'u brechu

**22.** Ni chaniateir i unrhyw berson werthu anifail sydd wedi'i frechu na'i anfon i'w gigydda onid oes ganddo dag clust a osodwyd o dan y Rheoliadau hyn.

### Methu â brechu anifeiliaid a bennwyd ar gyfer eu brechu

**23.**—(1) Rhaid i unrhyw berson sy'n gwybod neu'n amau bod anifail a bennwyd ar gyfer ei frechu ond nas brechwyd ar yr adeg pan ddylid bod wedi gwneud hynny hysbysu ceidwad yr anifail hwnnw a'r Rheolwr Milfeddygol Rhanbarthol o Wasanaeth Milfeddygol y Llywodraeth ar unwaith.

(2) Os yw arolygydd yn amau bod anifail wedi'i bennu ar gyfer ei frechu ond nas brechwyd ar yr adeg pan ddylid bod wedi gwneud hynny rhaid iddo drefnu bod yr anifail hwnnw'n cael ei frechu cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol (ond nid cyn 21 o ddiwrnodau ar ôl y dyddiad pan ddylai fod wedi cael ei frechu).

**Carcasau anifeiliaid a bennwyd ar gyfer eu brechu**

**24.**—(1) Os yw arolygydd yn gwybod neu'n amau bod carcas yn garcas anifail sydd wedi'i frechu ac y bwriedir ei werthu (p'un ai cyn neu ar ôl ei brosesu), ond nad ymdrinnir ag ef felly, caiff gyflwyno hysbysiad i'r person sydd â gofal amdano yn ei gwneud yn ofynnol iddo gael gwared ag ef.

(2) Os yw arolygydd yn gwybod neu'n amau bod carcas yn garcas anifail sydd wedi'i bennu ar gyfer ei frechu ond nas brechwyd ac y bwriedir ei werthu (p'un ai cyn neu ar ôl ei brosesu), rhaid iddo gyflwyno hysbysiad i'r person sydd â gofal amdano yn ei gwneud yn ofynnol iddo ymdrin ag ef bob amser fel pe bai'n garcas anifail sydd wedi'i frechu .

**Arolygu a dosbarthu mangreoedd yn ystod cyfnod 2**

**25.**—(1) Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol sicrhau yn ystod cyfnod 2—

(a) bod arolwg clinigol a serolegol yn cael ei gynnal o'r holl fangre yn y parth brechu lle cedwir anifeiliaid sy'n dueddol i gael y clwy yn unol â'r dull canlynol—

(i) gwneud archwiliad clinigol o'r holl anifeiliaid sy'n dueddol i gael y clwy yn y parth brechu, a

(ii) naill ai—

(aa) gwneud prawf i ddarganfod heintiad oherwydd firws y clwy drwy ganfod a yw gwrthgyrff proteinau anadeileddol firws y clwy yn bresennol mewn detholiad o anifeiliaid sy'n dueddol i gael y clwy, neu

(bb) gwneud prawf i ddarganfod a yw gwrthgyrff proteinau anadeileddol firws y clwy yn bresennol ar samplau o'r holl anifeiliaid sydd wedi'u brechu a'u hepil sydd heb eu brechu; a

(b) bod pob mangre yn y parth brechu lle cedwir anifeiliaid sy'n dueddol i gael y clwy yn cael ei dosbarthu yn ôl canlyniad yr arolwg a'r meini prawf yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn—

(i) os oedd o leiaf un anifail sy'n dueddol i gael y clwy yn y fangre ac os cadarnhawyd bod firws y clwy yn bresennol ynddo, yn fangre sydd wedi'i heintio;

(ii) os oedd o leiaf un anifail sy'n dueddol i gael y clwy yr amheuir ei fod wedi'i heintio ond bod profion pellach ar yr holl anifeiliaid sy'n dueddol i gael y clwy yn y fangre wedi cadarnhau nad yw firws y clwy yn cylchredeg yno, yn fangre adweithydd (a rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol gyflwyno hysbysiad i'r meddiannydd yn datgan bod y fangre yn fangre adweithydd); neu

(iii) fel arall, yn rhydd o'r clwy (a rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol hysbysu'r meddiannydd am y dosbarthiad hwnnw drwy gyflwyno hysbysiad iddo).

(2) Bydd y mesurau canlynol yn gymwys i fangre adweithydd—

(a) rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol sicrhau bod anifeiliaid sy'n dueddol i gael y clwy y cafwyd canlyniad cadarnhaol ar eu cyfer mewn o leiaf un o'r profion yn is-baragraff 1(a)(ii) yn cael eu cigydda ar y daliad;

(b) caiff y Cynulliad Cenedlaethol drwy hysbysiad a gyflwynir i'r meddiannydd gyfarwyddo bod anifeiliaid eraill sy'n dueddol i gael y clwy yn y fangre yn cael eu cigydda;

(c) rhaid i'r meddiannydd gael gwared ar garcasau unrhyw anifeiliaid sy'n dueddol i gael y clwy sydd wedi'u cigydda yn y fangre yn unol â chyfarwyddiadau arolygydd;

(ch) rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol sicrhau bod y fangre'n cael ei glanhau a'i diheintio yn unol ag Atodlen 1 i'r Gorchymyn;

(d) ni chaniateir i unrhyw berson ailstocio'r fangre ac eithrio o dan awdurdod trwydded a roddir gan y Cynulliad Cenedlaethol yn unol ag Atodlen 8 i'r Gorchymyn.

### Dyletswydd awdurdod lleol i godi arwyddion

**26.** Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod ffiniau pob parth brechu a pharth gwyliadwriaeth brechu yn cael eu dangos gan arwyddion a godir mewn lle amlwg ar yr holl ffyrdd sy'n mynd i mewn i'r parthau y mae o'r farn ei bod yn debygol y bydd anifeiliaid sy'n dueddol i gael y clwy yn cael eu symud arnynt.

### Masnach anifeiliaid sydd wedi'u brechu o fewn y Gymuned

**27.** Ni chaniateir i unrhyw berson anfon unrhyw anifail sydd wedi'i frechu ar gyfer masnach o fewn y Gymuned.